Carwyn Jones AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

19 Mawrth 2008

Annwyl Dafydd

**RHEOLIADAU CYNHYRCHION REIS O UNOL DALEITHIAU AMERICA (CYFYNGIAD AR EU RHOI GYNTAF AR Y FARCHNAD) (CYMRU) 2008**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi, er mwyn dod â Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008 i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU, ei bod yn ofynnol torri'r rheol 21 niwrnod. Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 18 Mawrth 2008, fe'u gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mawrth 2008, a byddant yn dod i rym ar 20 Mawrth 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol er mwyn diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC, a fabwysiadwyd ar 26 Chwefror 2008, ynghylch mewnforio llwythi reis grawn hir i'r UE a all gynnwys yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL601" mewn cynhyrchion reis o Unol Daleithiau America.

Roedd Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC, a fabwysiadwyd yn wreiddiol ar 5 Medi 2006, yn diwygio Penderfyniadau cynharach y Comisiwn ar reolaethau Aelod-Wladwriaethau, a nododd mai dim ond os yw llwyth o reis grawn hir o'r UDA wedi'i ddadansoddi, ac yr ardystiwyd nad yw'n cynnwys unrhyw reis GM nas awdurdodwyd "LL601" y gellir ei ganfod, y gall gael mynediad i'r UE. Rhoddwyd Penderfyniad 2006/601/EC ar waith yng Nghymru gan Reoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2006.

Diwygiwyd Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC ymhellach a'i fabwysiadu ar 26 Chwefror 2008. Ers mis Tachwedd 2006, dim ond os yw'n bodloni dau amod y gellir cyflwyno llwyth o reis grawn hir o'r UDA i farchnad yr UE:

- bod tystysgrif brawf ganddo sy'n nodi nad yw'n cynnwys LLRICE 601; a
- bod y llwyth yn cael ei samplo a'i ailbrofi lle bo'n cyrraedd yr UE.

Ystyriwyd bod angen y profi deuol hwn am y canfuwyd bod y dull profi a ddefnyddiwyd yn yr UDA yn llai sensitif.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs • Fax 029 2089 8129
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Erbyn hyn, ar ôl trafod â'r Comisiwn Ewropeaidd, mae'r cyrff perthnasol yn yr UDA wedi cytuno i fabwysiadu'r protocol profi mwy sensitif ac, yn ogystal, bydd GIPSA, asiantaeth sy'n rhan o Adran Amaethyddiaeth UDA, yn arnodi'r tystysgrifau prawf. O dan yr amodau newydd hyn, ym mis Rhagfyr 2007 cytunodd Aelod-Wladwriaethau y gellir rhoi terfyn ar y gofyniad i ailbrofi yn y man cyrraedd, ac ar 26 Chwefror 2008, cyflwynodd y Comisiwn y diwygiadau priodol yn ffurfiol i Benderfyniad 2006/601/EC. Mae'r Penderfyniad diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol dod â deddfwriaeth ddomestig i rym yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd.

Mae mabwysiadu Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC (fel y'i diwygiwyd) ar 26 Chwefror 2008 yn ei gwneud yn ofynnol dod â deddfwriaeth ddomestig i rym yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd.

Daeth Rheoliadau tebyg i rym yn Lloegr ar 7 Mawrth 2008; yn yr Alban ar 7 Mawrth 2008 ac yng Ngogledd Iwerddon ar 12 Mawrth 2008. Yn hynny o beth, i sicrhau gorfodaeth gyson ledled y DU, mae'n ofynnol torri'r rheol 21 niwrnod er mwyn i Reoliadau allu dod i rym yng Nghymru ar 20 Mawrth 2008. Byddai'r perygl o beidio â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith ar unwaith yn arwain at anghysondeb y gweithdrefnau ledled y DU ar gyfer ymdrin â mewnforio cynhyrchion reis a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd o'r Unol Daleithiau i'r UE. Yn ogystal, byddai'r DU yn torri ar ei rwymedigaethau o dan y Gymuned Ewropeaidd pe na bai'r gofyniad hwn yn dod i rym yng Nghymru.

O ganlyniad i uniongyrchedd yr Offeryn, ni fu'r Rheoliadau hyn yn destun ymgynghori nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, paratowyd Memorandwm Esboniadol a gosodwyd hwn, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, ac at Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir